## ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

## BIDIAU REFENIW PARHAOL 2024/25

| | Teitl y Bid | Manylion y Bid | Swm Parhaol a argymhellir (£) |
|---|---|---|---|
| **OEDOLION A PHLANT AR Y CYD** | | | |
| Bid 1 | Cyflogau Gweithwyr Cymdeithasol a Therapyddion Galwedigaethol | Cais i alluogi'r Adran i osod strwythur addas i'r dyfodol ar gyfer cyflogau'r gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol, gyda'r strwythur newydd yn un deniadol i geisio cadw ein staff proffesiynol a phrofiadol a denu gweithwyr proffesiynol y dyfodol.<br><br>£86,250 i'r Adran Plant<br>£98,030 i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | 184,280 |
| **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | | |
| Bid 2 | Ffioedd Gofal Nyrsio | Penderfynodd Cabinet y Cyngor i gynyddu ffioedd Preswyl a Nyrsio'r Cyngor ar gyfer 2022/23 er mwyn cefnogi'r farchnad a thalu pris teg am ofal preifat. Penderfynwyd ar ffioedd uwch na gweddill Gogledd Cymru ac mae'r ffioedd wedi parhau yn uwch nag argymhelliad y grŵp ffioedd Rhanbarthol ar gyfer 2023/24. Mae ffi safonol Gwynedd ar gyfer ffi Nyrsio EMI ymysg yr uchaf yng Nghymru.<br><br>Er hyn, mae nifer o'r Darparwyr Nyrsio EMI yng Ngwynedd yn gwrthod derbyn y ffioedd safonol sydd wedi eu gosod gan y Cyngor, ac yn hawlio ffioedd sylweddol uwch. Oherwydd prinder y ddarpariaeth, nid oes gennym reolaeth ddigonol dros y farchnad. Rydym yn edrych ar ein hopsiynau i ddatblygu mwy o ddarpariaeth Nyrsio a Nyrsio EMI yng Ngwynedd – er enghraifft gartref nyrsio Penrhos, ond bydd angen parhau i dalu ffioedd uwch yn y cyfamser. | 601,060 |
| Bid 3 | Achosion Oed Trosglwyddo Anableddau Dysgu | Bydd nifer o unigolion sydd wedi bod yn derbyn gwasanaeth gan yr Adran Plant a Theuluoedd yn troi yn 18 oed ac yn cychwyn derbyn gwasanaeth gan y Gwasanaeth Anableddau Dysgu yn ystod 2024/25. Mae dau o'r unigolion yma wedi eu hadnabod yn becynnau gofal lle bydd costau ychwanegol sylweddol i'r Gwasanaeth Anableddau Dysgu. Bydd angen cwrdd ag anghenion yr unigolion a'u gofalwyr yn unol â'r asesiad anghenion, er mwyn cwrdd ag allbynnau llesiant penodol yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.<br><br>Bydd nifer uwch o blant yn trosglwyddo i'r Gwasanaeth Anableddau Dysgu yn ystod y flwyddyn i ddod, ond mae nifer o'r pecynnau gofal yn rhai fydd yr Adran yn eu cyfarch heb adnodd ychwanegol. Mae'r fid ar gyfer yr achosion ble mae costau gofal sylweddol. | 67,850 |
| Bid 4 | Uwch Ymarferwyr Iechyd Meddwl | Mae prosiect i drawsnewid y Gwasanaeth Iechyd Meddwl. Y bwriad yw creu dwy swydd Ymarferydd Arweiniol (un ym mhob ardal) er mwyn cryfhau'r capasiti o fewn y gwasanaeth. Bydd y swyddi hyn yn galluogi'r Arweinwyr Ardal i weithredu'n fwy strategol er mwyn arwain ar y newidiadau ac i ganolbwyntio ar adeiladu perthynas efo'n partneriaid allweddol. Gyda'r Ymarferwyr Arweiniol yn rhoi arweiniad gweithredol i'r tîm ac yn goruchwylio'r staff trwy gyfnod o newid. | 119,160 |
| Bid 5 | Gofal Cartref | Patrwm o orwariant hanesyddol, gyda ffactorau fel trefniadau ar alwad (hanesyddol a heb eu hariannu), trefniadau talu amser teithio ac ymateb i bwysau gwaith cyfredol yn cyfrannu tuag at y gorwariant. Ac felly, mae'r Adran yn cychwyn pob blwyddyn ariannol gyda bwlch ariannol oherwydd diffyg cyllideb yn y meysydd hyn. Mae cynnydd yn y galw am wasanaeth hefyd yn cyfrannu i wneud y sefyllfa yn un fwy heriol. Byddai'r adnodd ychwanegol yn lleihau'r bwlch rhwng costau darparu cyfredol y gwasanaeth a'r gyllideb, yn hytrach na bod mewn sefyllfa gorwariant anorfod blynyddol. | 500,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bid 6 | Iechyd Meddwl | Patrwm o orwariant hanesyddol yn bennaf yn ymwneud a chynnydd yn y galw am wasanaeth a chostau achosion lle bu angen lleoliadau preswyl arbenigol a chostus.<br><br>Bydd yr adnodd ychwanegol yn caniatáu bod y gyllideb sydd ar gael yn cyd-fynd gyda chostau darparu cyfredol y gwasanaeth yn hytrach na bod mewn sefyllfa gorwariant anorfod yn flynyddol. | 300,000 |
| Bid 7 | Llety Cefnogol unigolion gydag Anableddau | Mae anghenion unigolion mae'r Tîm Anableddau Dysgu yn eu cefnogi yn mynd yn fwy cymhleth, gyda nifer uwch o unigolion yn derbyn cefnogaeth yng Ngwynedd. Mae nifer o'r unigolion yma a'u teuluoedd yn dewis byw bywyd mor arferol â phosib a chael cartref yn eu cymuned yng Ngwynedd. Yn sgil hynny, mae'r niferoedd sydd yn byw mewn tŷ a chefnogaeth yng Ngwynedd wedi cynyddu.<br><br>Mi fydd yr adnodd ychwanegol yn sicrhau darpariaeth llety gyda chefnogaeth neu lety arbenigol i'r unigolion lle mae angen darganfod opsiwn lletya iddynt. Bydd cynlluniau cefnogaeth fanwl yn cael eu paratoi fel rhan o'r pecyn cefnogaeth. | 1,612,210 |
| **CYLLID** | | | |
| Bid 8 | Costau Banc | Yn dilyn newid deddfwriaethol nid yw'r Cyngor bellach yn gallu codi ffi ar gwsmeriaid sydd yn talu gyda chardiau credyd ac felly mae costau banc y Cyngor wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gan fod mwy o daliadau am wasanaethau gan gwsmeriaid yn cael eu gwneud gyda chardiau.<br><br>Ers rhai blynyddoedd, mae'r Adran wedi dygymod gyda'r gwariant uwch drwy danwariant mewn gwasanaethau eraill. Ond yn dilyn y cynlluniau arbedion/toriadau diweddar, nid yw'n bosib bellach i'r Adran ddygymod â'r gorwariant. | 156,900 |
| Bid 9 | ***Cynllun Digidol (CC2)*** - Gwelliannau i ddarpariaeth Ffôn y Cyngor | Sefydlu system sydd wedi ei integreiddio'n llawn â Microsoft Teams ac sy'n dwyn ar welliannau niferus i'r system ffôn, system ffôn y ganolfan gyswllt a'r gallu i adrodd yn hyderus ar ein defnydd o'r cyfryngau hyn. Mae hefyd yn cynnwys y gallu i ddefnyddio aml gyfrwng, megis e-bost, neges destun a chyfryngau cymdeithasol. Mae'r cais yn cynnwys costau swyddog ychwanegol i weinyddu'r system yn effeithiol.<br><br>Mae cysylltu â'r Cyngor â ffon yn parhau'n ddewis poblogaidd ymhlith cwsmeriaid, ac mae'n bwysig felly ein bod yn datblygu'r cyfrwng cyswllt cwsmer hwn ymhellach. | 239,000 |
| Bid 10 | ***Cynllun Digidol (GWYD2)*** – Parhad Gwasanaeth | Mae'r cais yma i gryfhau ein gallu i amddiffyn o ddigwyddiadau megis ymosodiadau seibr a gwella'n gallu i adfer pe byddai trychineb seibr neu ddigwyddiad sylweddol yn analluogi'n gwasanaethau digidol. | 46,000 |
| **CEFNOGAETH GORFFORAETHOL** | | | |
| Bid 11 | Cefnogaeth llesiant i staff y Cyngor | Ers sawl blwyddyn bellach mae gorwariant ar gyllideb llesiant staff. Cyfeirir yn benodol at gyllideb y Gwasanaethau Cwnsela a Ffisiotherapi a ddarperir i holl staff y Cyngor. Dros y blynyddoedd, mae'r gorwariant wedi ei gyfarch gan danwariant o fewn yr Adran Gefnogaeth Gorfforaethol. Ond, yn sgil toriadau ariannol, nid yw hyn bellach yn gynaliadwy. | 60,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **ADDYSG** | | | |
| Bid 12 | Ail dendro Bysus Ysgolion | Bu i'r Uned Gludiant gynnal proses o ail-dendro Bysus Dwyfor ym Mawrth 2023. Canlyniad y broses oedd bod costau'r contractau newydd yn sylweddol uwch. Ymhellach, mae rhai contractau Meirionydd yn destun ail-dendro yn Chwefror / Mawrth 2024.<br><br>Mae Panel Adolygiad Cludiant wedi ei sefydlu i adnabod cyfleoedd effeithlonrwydd posib yn y maes er mwyn ceisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant. Er hynny, mae gweithredu addasiad yn y contractau bysus yn un anodd, yn enwedig yn y tymor byr. | 486,000 |
| Bid 13 | Cludiant Tacsis a Threnau Ysgolion | Gorwariant ar sail cytundebau Medi 2023, yn gysylltiedig â diffyg yn y bid a gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn gyllidol 2023/24, ynghyd â thwf gwirioneddol yn y 12 mis diwethaf yn bennaf ar gytundebau cludiant i Ysgolion Arbennig a chytundebau cludiant Addysg Bellach. | 409,610 |
| **AMGYLCHEDD** | | | |
| Bid 14 | Camera Teledu Cylch Cyfyng ar y Cerbydau | Costau SIM misol i'r camerâu a fydd yn cael eu gosod ar gerbydau gwaith. Rhagwelir bydd y camerâu hyn yn hyrwyddo ymddygiadau iechyd a diogelwch da ymysg gweithwyr, lleihau'r risg i weithwyr sy'n gweithio ar ben eu hunain, gwella diogelwch o amgylch peiriannau a chasglu tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad e.e. biniau yn cael eu methu, difrod i eiddo neu ddamwain. | 13,680 |
| Bid 15 | Strwythur Gwastraff ac Ailgylchu | Cyllido'r newidiadau i arfarniadau swyddi pan oedd y gwasanaeth yn rhan o'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, yn ogystal â'r newidiadau sydd wedi eu gwneud ers trosglwyddo'r gwasanaeth. | 102,070 |
| **PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC** | | | |
| Bid 16 | Arfarniad Swyddi – Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd | Yn dilyn ail edrych ar swydd ddisgrifiadau Gweithwyr Ffordd, gan gwblhau gwaith adolygu cyn cyflwyno'r swydd ddisgrifiadau newydd i gael eu harfarnu. Canlyniad yr arfarniad yn adnabod newid graddfa dwy swydd.<br><br>Bydd y newidiadau hyn yn arwain at wella trefniadau a dealltwriaeth o gyfrifoldebau a dyletswyddau'r tîm. | 155,000 |
| | | **CYFANSWM BIDIAU REFENIW PARHAOL** | **5,052,820** |